O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2410 (Cy. 260)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf, i Gylchfan Abercannaid, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *18 Medi 2012*

Yn dod i rym *24 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Medi 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf, i Gylchfan Abercannaid, Merthyr Tudful) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 24 Medi 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A470 rhwng Cylchfan Abercynon ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chylchfan Abercannaid, ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2, ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 mewn grym.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Y Cyfnod y bydd y Gorchymyn hwn yn para

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.